OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2579 (Cy. 255)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 a'r A494 (Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyffordd Pinfold Lane, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2014

*Gwnaed* *23 Medi 2014*

*Yn dod i rym* *30 Medi 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) a Chefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt neu'n agos atynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Medi 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 a'r A494 (Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyffordd Pinfold Lane, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2014.

**2**. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 30 Medi 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darnau o Gefnffordd yr A55 yn Sir y Fflint, a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darnau o Gefnffyrdd yr A55 a'r A494 yn Sir y Fflint a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Medi 2014.

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN 1

### Gwahardd Dros Dro Gerbydau, Cerddwyr a Beicwyr

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 250 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 34, trosbont dolen Ewlo i'w chyffordd â Pinfold Lane.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro

Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r gorllewin yr A55 a'r A494 sy'n ymestyn o bwynt 700 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o Gyfnewidfa Parc Dewi Sant ar Gefnffordd yr A494 i gyfeiriad y gorllewin hyd at bwynt 324 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont y B5127 ar Gefnffordd yr A55.